# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru)** |
| **Swyddog(ion) a gwblhaodd yr Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Tîm Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru)**<br><br>**Ansawdd Tai** |
| **Adran:** | **Tai ac Adfywio** |
| **Pennaeth Is-adran/SRO (enw):** | **Tania Nicholson** |
| **Gweinidog y Cabinet/Gweinidog sy'n gyfrifol:** | **Jayne Bryant, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **24 Hydref 2024** |

# CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham? ..... 3

Adran 2. Beth fydd yr effaith ar lesiant cymdeithasol? ..... 9

Adran 3. Beth fydd yr effaith ar lesiant diwylliannol a'r Gymraeg? ..... 14

Adran 4. Beth fydd yr effaith ar lesiant economaidd? ..... 15

Adran 5. Beth fydd yr effaith ar lesiant amgylcheddol? ..... 19

Adran 6. Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Beth fydd yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol? ..... 20

Adran 7. Cofnod o'r Asesiadau Effaith Llawn sy'n Ofynnol ..... 21

Adran 8. Casgliad ..... 22

Adran 9. Datganiad ..... 25

## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Bydd y Bil yn cyflwyno cyfundrefn newydd yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar y cam meddiannu yng nghylch oes adeilad. Bydd yn ymdrin â rheoleiddio risgiau i ddiogelwch adeiladau mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio'r system diogelwch adeiladau sydd ar waith ar hyn o bryd.

Bydd y Bil yn ymateb i broblemau a nodwyd gan Adolygiad Hackitt, Ymchwiliad Tŵr Grenfell, a Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau Llywodraeth Cymru. Mae'r polisïau wedi cael eu datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid ac wedi cael eu llywio gan ymatebion i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru "Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru" a gwaith ymchwil ac ymgynghori ehangach.

Bydd y gyfundrefn newydd ar gyfer y cam meddiannu a gyflwynir gan y Bil yn cynnwys y noweddion canlynol:

### Cwmpas

Bydd y gyfundrefn yn cwmpasu tri chategori o adeiladau:

- Categori 1: Adeiladau preswyl amlfeddiannaeth sy'n 18m o leiaf neu'n 7 llawr o leiaf.
- Categori 2: Adeiladau preswyl amlfeddiannaeth sy'n llai na 18m neu 7 llawr ond sy'n 11m neu'n 5 llawr o leiaf. Bydd yr adeiladau hyn yn ddarostyngedig i rai, ond nid pob un, o'r gofynion a fydd yn gymwys i adeiladau categori 1.
- Categori 3: Adeiladau preswyl amlfeddiannaeth sy'n llai nag 11m neu 5 llawr. Bydd yr adeiladau hyn yn ddarostyngedig i rai, ond nid pob un, o'r gofynion a fydd yn gymwys i adeiladau categori 2, gan gynnwys dyletswyddau diogelwch tân ond nid dyletswyddau diogelwch strwythurol.

Bydd rhannau preswyl adeiladau defnydd cymysg yn cael eu cwmpasu gan y gyfundrefn newydd, yn ogystal â thŷ a addaswyd yn ddwy fflat a bloc o fflatiau uchel iawn. Bydd rhannau masnachol adeilad defnydd cymysg yn ddarostyngedig o hyd i Orchymyn Diogelwch Tân 2005. Bydd yn ofynnol i'r person cyfrifol o dan y Gorchymyn gydweithio a chydgysylltu â deiliaid dyletswydd o dan y Bil i sicrhau bod risgiau i ddiogelwch adeiladau yn cael eu hasesu a'u rheoli mewn ffordd gyfannol.

Bydd rhai tai amlfeddiannaeth yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau diogelwch tân ond fel arall, yn gyffredinol, ni chânt eu cwmpasu gan y gyfundrefn. Caiff tai amlfeddiannaeth eu rheoleiddio'n ddigonol yn barod drwy ddeddfwriaeth sydd eisoes ar waith, gan gynnwys Deddf Tai 2004 a Deddf Tai (Cymru) 2014.

### Deiliaid dyletswydd

Rydym yn cynnig cyflwyno rôl newydd ar gyfer deiliad dyletswydd, y cyfeiriwn ato fel y person atebol. Y person atebol fydd y person neu'r endid sy'n dal naill ai ystad gyfreithiol mewn meddiant neu sydd â rhwymedigaethau atgyweirio dros unrhyw ran o rannau cyffredin adeilad. Gan gydnabod bod gan adeiladau fodelau perchnogaeth cymhleth a'r posibilrwydd y bydd gan lawer o adeiladau fwy nag un person atebol, rydym yn cynnig y dylid nodi deiliad dyletswydd arweiniol, y cyfeiriwn ato fel y prif berson atebol. Y prif berson atebol fydd y person sydd â rhwymedigaeth atgyweirio (o dan statud neu brydlesi) dros y tu allan i'r adeilad a strwythur yr adeilad. Bydd gan ddeiliaid dyletswydd gyfrifoldebau am asesu a rheoli'r risgiau i ddiogelwch adeiladau yn y rhannau hynny o adeiladau sydd o fewn y cwmpas y maent yn gyfrifol amdanynt. Fodd bynnag, bydd gan y prif berson atebol ddyletswyddau ychwanegol o dan y gyfundrefn. Bydd gan y prif berson atebol ddyletswyddau ychwanegol, gan gynnwys:

- Cofrestru'r adeilad (categori 1 a 2).
- Gwneud cais am dystysgrif adeilad gan gynnwys paratoi a chyflwyno adroddiad ar achos diogelwch i'r awdurdod diogelwch adeiladau (categori 1 yn unig).
- Gweithredu system cofnodi digwyddiadau h.y. system i dderbyn a chofnodi gwybodaeth am ddigwyddiadau neu sefyllfaoedd sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau (categori 1 yn unig)
- Sicrhau bod mesurau diogelwch tân priodol ar waith (categori 1, 2 a 3).
- Sicrhau bod mesurau diogelwch strwythurol priodol ar waith (categori 1 a 2)
- Cynnal asesiad risgiau tân blynyddol (categori 1, 2 a 3).
- Datblygu a chadw gwybodaeth benodol am ddiogelwch adeiladau (categori 1, 2 a 3).

Bydd gan brif bersonau atebol ddyletswyddau hefyd mewn perthynas â phreswylwyr, ond bydd y dyletswyddau hyn yn gymesur gyda dyletswyddau mwy sylweddol yn cael eu gosod ar brif bersonau atebol a phersonau atebol ar gyfer adeiladau categori 1 o gymharu ag adeiladau categori 2 a 3.

Ar gyfer adeiladau categori 1, bydd yn ofynnol i ddatblygu a chyflawni Strategaeth Ymgysylltu â Phreswylwyr mewn ymgynghoriad â phreswylwyr. Dylai'r ymgysylltiad hwn fod yn ddiffuant ac yn barhaus a chynnwys preswylwyr yn y broses o wneud penderfyniadau ar faterion allweddol sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau sy'n effeithio arnynt.

Bydd yn ofynnol hefyd sefydlu proses ffurfiol sy'n galluogi preswylwyr i godi pryderon am ddiogelwch adeiladau mewn adeiladau categori 1, a chynigir trefn symlach mewn adeiladau categori 2 a 3. Disgwylir y bydd hyn yn fuddiol i breswylwyr, yn enwedig y rhai sydd â phryderon am eu cartrefi.

**Awdurdodau Diogelwch Adeiladau**

Awdurdodau lleol fydd yr awdurdodau diogelwch adeiladau ar gyfer cyfundrefn y cam meddiannu, a byddant yn gyfrifol am reoleiddio adeiladau categori 1, 2 a 3 o fewn eu

ffiniau eu hunain. Rydym yn cynnig galluogi awdurdodau lleol i ddirprwyo swyddogaethau rheoleiddio i awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i benderfynu ar y model mwyaf priodol ar gyfer cyflawni.

Bydd cyfrifoldebau awdurdodau diogelwch adeiladau yn cynnwys:

- Cadw a chynnal y gofrestr o adeiladau a phrif bersonau atebol a phersonau atebol.
- Sicrhau bod prif bersonau atebol a phersonau atebol yn cyflawni eu dyletswyddau i asesu risgiau i ddiogelwch strwythurol.
- Derbyn ac adolygu tystiolaeth o sut mae risgiau i ddiogelwch adeiladau yn cael eu hasesu a'u rheoli, gan brif bersonau atebol adeiladau categori 1.
- Sicrhau bod prif bersonau atebol a phersonau atebol yn cyflawni eu dyletswyddau dogfennau ehangach o dan y gyfundrefn (fel cadw cofnod cyflawn o wybodaeth bwysig am adeiladau, sef y 'Llinyn Aur').
- Derbyn ac adolygu gwybodaeth am ddigwyddiadau penodol lle ceir risg i fywyd mewn adeiladau categori 1 (cofnodi digwyddiadau).
- Sicrhau bod prif bersonau atebol a phersonau atebol yn cyflawni eu dyletswyddau i ymgysylltu â phreswylwyr, rheoli cwynion gan breswylwyr ac ymateb i'r cwynion hynny.
- Ymgysylltu â phreswylwyr ynghylch materion penodol ac ymdrin â chwynion gan breswylwyr.
- Cymryd camau gorfodi cymesur, priodol os nad yw camau eraill wedi llwyddo.
- Cynnal archwiliadau fel y bo'n briodol, gan gynnwys archwiliadau ar y cyd ag awdurdodau tân ac achub.
- Gweithio gyda'i gilydd a chyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau (gan gynnwys canllawiau statudol) ar gyfer y gyfundrefn.

Bydd awdurdodau tân ac achub yn gyfrifol o hyd am reoleiddio mesurau diogelwch tân o fewn y gyfundrefn. Er enghraifft, bydd hyn yn cynnwys camau gorfodi mewn perthynas â dyletswydd y prif berson atebol i lunio neu adolygu asesiad risgiau tân. Bydd yn hanfodol bod awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau diogelwch adeiladau yn cydweithio â'i gilydd.

Weithiau, mae'n bosibl y bydd awdurdod lleol yn ddeiliad dyletswydd ar gyfer adeilad sydd o fewn y cwmpas. Ar gyfer adeiladau categori 1, rydym yn cynnig y dylid ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ddirprwyo'r dyletswyddau a'r pwerau sydd eu hangen i reoleiddio'r adeiladau hynny, drwy gytundeb, i reoleiddiwr awdurdod lleol gwahanol. Gan fod llai o ddyletswyddau yng nghategorïau 2 a 3 o gymharu â chategori 1, ni fyddwn yn gosod dyletswydd debyg ar awdurdodau lleol mewn perthynas ag adeiladau categori 2 neu 3.

**Ymgysylltu â Phreswylwyr**

Un wers allweddol o drychineb Tŵr Grenfell oedd nad oedd lleisiau'r preswylwyr yn cael chwarae teg yn aml, gan gynnwys pan oeddent yn rhoi gwybod am faterion diogelwch

dilys. Bydd y Bil yn sicrhau y defnyddir dull mwy cyson i ymgysylltu â phreswylwyr, p'un a yw'r adeilad yn eiddo preifat, yn darparu tai cymdeithasol, yn cael ei rentu neu'n eiddo i berchen-feddianwyr.

Bydd yn ofynnol i bob prif berson atebol a phob person atebol ddarparu lefel ofynnol o wybodaeth am ddiogelwch yr adeilad i'r preswylwyr, a bydd manylder yr wybodaeth a ddarperir yn gymesur â chymhlethdod yr adeilad. Ar gyfer adeiladau categori 1, bydd gofynion ychwanegol ar y prif berson atebol i ddatblygu Strategaeth Ymgysylltu â Phreswylwyr mewn ymgynghoriad â phreswylwyr, a chyflawni'r Strategaeth honno. Dylai'r Strategaeth Ymgysylltu â Phreswylwyr fod yn ddiffuant ac yn barhaus er mwyn cynnwys preswylwyr mewn penderfyniadau ar faterion allweddol sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau sy'n effeithio arnynt.

Bydd yn ofynnol i awdurdodau diogelwch adeiladau ymgysylltu â phreswylwyr ar faterion sy'n ymwneud â chyflawni swyddogaethau rheoleiddio.

**Cyfrifoldebau preswylwyr**

Yn ogystal â cheisio sicrhau bod gan breswylwyr lwybr clir i gael iawn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, bydd y gyfundrefn yn cydnabod bod preswylwyr yn chwarae rôl bwysig wrth gyfrannu at eu diogelwch eu hunain a diogelwch eu cymdogion mewn adeiladau. Caiff dyletswyddau cymesur eu gosod ar breswylwyr a pherchnogion unedau preswyl i wneud y canlynol:

- Peidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n peri risg sylweddol y bydd risg i ddiogelwch yr adeilad yn codi.
- Cydymffurfio â chais a wneir gan y prif berson atebol neu'r person atebol priodol am wybodaeth sydd ei hangen yn rhesymol er mwyn cydymffurfio â'u dyletswyddau o ran diogelwch yr adeilad.
- Peidio ag ymyrryd ag eitem ddiogelwch berthnasol mewn ardaloedd cyffredin.
- Peidio ag ymyrryd â dyfeisiau diogelwch sydd wedi'u gosod i ddiogelu sawl aelwyd.

Bydd canllawiau'n bwysig er mwyn helpu preswylwyr a pherchnogion unedau preswyl i ddeall eu cyfrifoldebau o dan y gyfundrefn newydd.

**Hirdymor**

Cafodd materion systemig mewn perthynas â dyluniad ac adeiledd adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yng Nghymru a Lloegr eu hunioni gan Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022. Drwy gyflwyno cyfundrefn newydd ar gyfer meddiannu a rheoli'r adeiladau hyn yng Nghymru, rydym yn ceisio sicrhau bod preswylwyr yn fwy diogel a'u bod yn teimlo'n fwy diogel yn yr hirdymor.

**Atal**

Bwriedir i'r Bil atal a lleihau effaith tanau a methiannau strwythurol mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth. Bydd y gyfundrefn diogelwch adeiladau newydd yn nodi'r rhai

sy'n gyfrifol am yr adeiladau, yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau ac yn eu dwyn i gyfrif am ddiogelwch adeiladau.

**Integreiddio**

Mae'r Bil yn cyd-fynd ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio'r system diogelwch adeiladau sydd ar waith ar hyn o bryd.

Mae tai yn fater trawsbynciol sy'n cysylltu â llawer o bolisïau eraill Llywodraeth Cymru ond ceir cysylltiadau arbennig o gryf ag iechyd. Yn ogystal â'r buddion amlwg i iechyd drwy atal marwolaethau ac anafiadau, bwriedir i'r Bil wella llesiant meddyliol preswylwyr mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth.

**Cydweithio**

Bydd y gyfundrefn newydd yn gofyn am gydweithrediad rhwng rhanddeiliaid, gan gynnwys preswylwyr, lesddeiliaid, personau atebol, awdurdodau diogelwch adeiladau ac awdurdodau tân ac achub. Yn benodol, bydd gan breswylwyr lais cryfach o ran y ffordd y caiff yr adeiladau y maent yn byw ynddynt eu rheoli.

**Cyfranogiad**

Mae'r broses o ddatblygu'r polisi wedi bod yn seiliedig ar waith ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei chynigion cychwynnol mewn papur gwyn Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2021. Defnyddiwyd yr ymatebion a ddaeth i law er mwyn helpu i lunio polisi ac ymgysylltwyd yn barhaus â rhanddeiliaid drwy gyfarfodydd, gweithdai a gweminarau. Mae gweithgareddau ymgysylltu wedi cynnig gwybodaeth werthfawr am y materion sydd o'r pwys mwyaf i breswylwyr. Gan weithio gyda TPAS Cymru, rydym wedi cynnwys cymdeithasau a grwpiau preswylwyr er mwyn sicrhau y caiff llais a safbwyntiau cynrychiolaeth eang o lesddeiliaid a thenantiaid eu clywed, ac y caiff eu profiadau bywyd eu hystyried. Rydym hefyd wedi cynnwys grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig amrywiol. Mae'r sector tai, awdurdodau lleol ac awdurdodau tân ac achub hefyd wedi cael eu cynnwys drwy gydol y broses o ddatblygu'r Bil.

Ar yr amod y caiff y Bil ei basio'n llwyddiannus drwy'r Senedd, bydd rhanddeiliaid yn parhau i gael eu cynnwys drwy gydol y broses weithredu.

**Effaith**

Bydd y Bil yn creu system y bwriedir iddi wneud y canlynol:

- gwella trefniadau i reoli a lliniaru'r risg o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch tân a diogelwch strwythurol, gan osgoi marwolaethau ac anafiadau
- gwneud i breswylwyr deimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi, gan gefnogi eu llesiant meddyliol

- rhoi mwy o hyder i ddarparwyr morgeisi ac yswiriant fod adeiladau sydd o fewn y cwmpas yn cynnig gwarant gyfochrog ddigonol ar gyfer benthyciadau

### Costau ac Arbedion

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn amlinellu'r costau a'r manteision amcangyfrifedig.

### Mecanwaith

Mae angen deddfwriaeth i gyflawni ein hamcanion. Cwblhawyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## ADRAN 2. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT CYMDEITHASOL?

### 2.1 Pobl a Chymunedau

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar bobl a chymunedau?**

Drwy wella'r ffordd y caiff diogelwch adeiladau mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth ei reoli, bwriedir i'r Bil gael effaith gadarnhaol ar breswylwyr. Bwriedir iddo leihau'r risg o anaf neu farwolaeth yn sgil digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau, gan helpu preswylwyr i fod yn fwy diogel a theimlo'n fwy diogel.

Bydd ymgysylltu â phreswylwyr wrth wraidd y gyfundrefn newydd. Bwriedir i'r gyfundrefn rymuso preswylwyr drwy roi llwybrau clir iddynt godi pryderon a chwynion a llais cryfach mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar eu cartrefi. Bwriedir i'r diwygiadau alluogi preswylwyr i gymryd diddordeb byw yn niogelwch eu hadeilad drwy sicrhau bod gwybodaeth yn fwy tryloyw.

Bwriedir hefyd i'r gyfundrefn sicrhau bod preswylwyr yn cael cymorth i ddeall eu dyletswyddau eu hunain i gadw eu hadeiladau'n ddiogel drwy annog diwylliant o ymddygiad diogel ymhlith preswylwyr.

Nododd adolygiad Hackitt nad yw lleisiau preswylwyr wedi cael chwarae teg yn aml, gan gynnwys pan oeddent yn rhoi gwybod am faterion diogelwch dilys. O ganlyniad, argymhellir y dylid cyflwyno strategaethau ymgysylltu â phreswylwyr gorfodol. Cydnabu Papur Gwyn Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru fod gan breswylwyr rôl allweddol i'w chwarae wrth helpu i wella diogelwch yn eu hadeiladau gan mai nhw, yn aml, sydd yn y sefyllfa orau i sylwi ar risgiau a rhoi rhybuddion cynnar yn eu cylch.

Canfu Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau Llywodraeth Cymru fod enghreifftiau o arfer da ym maes ymgysylltu â phreswylwyr ledled Cymru gan nodi y dylent gael eu hyrwyddo, ac argymhellodd y dylid cyflwyno safonau effeithiol ym maes ymgysylltu â phreswylwyr.

Ar gyfer adeiladau categori 1, bydd gofyniad i ddatblygu Strategaeth Ymgysylltu â Phreswylwyr mewn ymgynghoriad â phreswylwyr, a chyflawni'r Strategaeth honno. Dylai'r ymgysylltu hwn fod yn ddiffuant ac yn barhaus a chynnwys preswylwyr mewn penderfyniadau ar faterion allweddol sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau sy'n effeithio arnynt.

Bydd yn ofynnol hefyd sefydlu proses ffurfiol sy'n galluogi preswylwyr i godi pryderon am ddiogelwch adeiladau mewn adeiladau categori 1, a chynigir trefn symlach mewn adeiladau categori 2 a 3. Disgwylir y bydd hyn yn fuddiol i breswylwyr, yn enwedig y rhai sydd â phryderon am eu cartrefi.

Bydd y Bil hefyd yn cyflwyno cyfrifoldebau ychwanegol ar gyfer preswylwyr. Bydd dyletswydd ar breswylwyr adeiladau categori 1 a chategori 2 i beidio ag ymddwyn mewn ffyrdd sy'n peri risg sylweddol y bydd risg diogelwch tân neu risg diogelwch strwythurol yn codi. Bydd dyletswydd ar breswylwyr adeiladau categori 3 i beidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n peri risg sylweddol y bydd risg diogelwch tân yn codi. Mae'n bosibl y bydd gan rai preswylwyr agwedd negyddol at y dyletswyddau hyn gan eu gweld fel ymyriad neu ymgais i darfu ar eu hawl i fwynhau eu cartrefi. Fodd bynnag, nid deddfu yn erbyn ymddygiadau preifat yng nghartrefi preswylwyr, fel smygu neu gynnau canhwyllau, yw ein bwriad.

Bwriedir i'r effaith ehangach o osod dyletswyddau ar breswylwyr i beidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n peri risg sylweddol y bydd risg i ddiogelwch yr adeilad yn codi a pheidio â newid yn fwriadol neu'n ddi-hid y ffordd y mae eu hannedd wedi'i hadrannu, fod yn gadarnhaol. Y bwriad yw y bydd hyn yn cyfrannu at system lle gall y risg o danau gael ei rheoli'n well.

## 2.2 Hawliau Plant

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Drwy wella trefniadau rheoleiddio, nod y Bil yw creu amgylcheddau byw mwy diogel drwy leihau'r risg o dân a risgiau strwythurol, a fydd yn fuddiol i bob preswylydd, gan gynnwys plant.

Mae aelwydydd â phlant yn llawer llai tebygol o fyw mewn adeiladau sydd o fewn cwmpas y Bil nag ym mhob annedd arall. Mae data ar anfiadau oherwydd tân yng Nghymru yn dangos bod cyfran y plant sy'n dioddef anafiadau oherwydd tân yn llawer is na chyfran y plant yn y boblogaeth.  Felly, ni fydd y Bil yn effeithio'n anghymesur ar blant.

Drwy ymgysylltu'n well â phreswylwyr a chyflwyno proses gwyno, y bwriad yw sicrhau bod pryderon preswylwyr yn cael eu clywed a'u trin, gan gyfrannu at eu llesiant seicolegol ac emosiynol. Nod y Bil yw hyrwyddo ymdeimlad o ddiogelwch, sy'n hollbwysig ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

Er nad yw plant wedi'u cynnwys yn uniongyrchol yn y strategaeth ymgysylltu, gall rhieni a gwarcheidwaid eu cynnwys mewn trafodaethau ynghylch diogelwch, gan feithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb a phwysleisio pwysigrwydd mesurau diogelwch. Gall y dull gweithredu hwn rymuso plant i ymddwyn yn gyfrifol a chynnal eu diogelwch.

Yr effaith negyddol fwyaf sylweddol ar blant fydd cost y gyfundrefn newydd i'w teuluoedd. Mae'n bosibl y gallai'r costau hyn gael yr effaith fwyaf ar y rhai â'r lleiaf o allu i dalu. Mae cyfraddau tlodi yn amrywio i wahanol fathau o deuluoedd. Mae aelwydydd â phlant yn

tueddu i gael cyfraddau tlodi uwch oherwydd bod mwy o bobl yn yr aelwyd o gymharu â'i hincwm bosibl. Mae plant sy'n byw mewn llety rhent preifat neu gymdeithasol, y rhai mewn aelwydydd heb waith, y rhai mewn aelwydydd un rhiant a phlant Du ac Asiaidd yn fwy tebygol o fod mewn tlodi.

Yn gyffredinol, nod y Bil yw gwella diogelwch a llesiant pob preswylydd, gan gynnwys plant, ond gall hefyd beri heriau ariannol i rai teuluoedd â phlant. Mae'r Bil yn rhoi pwyslais ar gydymffurfiaeth, atebolrwydd a chydweithio i greu amgylcheddau byw mwy diogel.

Ceir Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn Atodiad A.

## 2.3 Cydraddoldeb

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn amlinellu'r effaith ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifiwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Er bod y Bil yn ceisio gwella diogelwch i bob preswylydd sy'n byw mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth, mae'n debygol y bydd y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o danau yn cael mwy o fudd. Mae'r rhain yn cynnwys pobl hŷn, rhai pobl anabl a theuluoedd un rhiant.

Bydd costau ynghlwm wrth y gyfundrefn newydd, a all gael eu trosglwyddo i breswylwyr. Mae'r rhain yn debygol o gael mwy o effaith ar grwpiau sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi, gan gynnwys:

- Rhai aelwydydd hŷn, yn enwedig:
  - Pobl hŷn sy'n rhentu eu cartrefi, yn breifat neu drwy'r sector cymdeithasol
  - Pobl Ddu ac Asiaidd hŷn
  - Menywod sengl hŷn
- Aelwydydd ifanc
- Aelwydydd â phlant, yn enwedig:
  - Aelwydydd un rhiant
  - Aelwydydd â 3 phlentyn neu fwy
  - Aelwydydd Du neu Asiaidd â phlant
  - Aelwydydd â phlant sy'n byw mewn cartrefi rhent
- Aelwydydd anabl, gan gynnwys y rhai sy'n:
  - Byw mewn aelwydydd ag oedolion a phlant anabl, neu
  - Yn meddu ar amhariadau meddyliol hirdymor a chyfyngus
- Aelwydydd Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol
- Aelwydydd incwm isel

Ceir Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad B.

## 2.4 Prawfesur Gwledig

Disgwylir y bydd y gyfundrefn newydd o fudd i breswylwyr mewn adeiladau amlfeddiannaeth ledled Cymru, p'un a ydynt yn byw mewn ardaloedd gwledig neu drefol. Ymgynghorwyd ag awdurdodau lleol a gwasanaethau tân ac achub, ac nid ydynt wedi nodi unrhyw wahaniaethau sylweddol o ran yr effaith ar ardaloedd gwledig yn benodol. Cynlluniwyd y Bil i gael cyn lleied o effaith â phosibl ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr neu ddefnyddwyr mewn ardaloedd gwledig ac nid yw'n dibynnu ar seilwaith fel cysylltiadau ffyrdd neu reilffyrdd da, band eang cyflym neu gysylltedd symudol.

Mae adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yn llai cyffredin mewn ardaloedd gwledig ac felly mae effaith y Bil ar yr ardaloedd hyn yn debygol o fod yn llai. Mae tua traean o'r boblogaeth yn byw mewn awdurdodau lleol gwledig. I gymharu, dim ond 5% o adeiladau categori 1, 15% o adeiladau categori 2 a llai na thraean (23-30%) o dai amlfeddiannaeth sydd wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol gwledig. Fodd bynnag, mae lleoliad adeiladau categori 3 yn fwy cyson â dosbarthiad y boblogaeth yng Nghymru.

Nid yw'r Bil yn effeithio ar amaethyddiaeth na gweithgareddau cysylltiedig, felly nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Reoli Tir yn Gynaliadwy.

I grynhoi, bwriedir i'r Bil wneud adeiladau preswyl amlfeddiannaeth ledled Cymru yn fwy diogel, heb gael effeithiau andwyol sylweddol ar gymunedau gwledig.

Ceir Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig yn atodiad C.

## 2.5 Iechyd

Roedd ymarfer sgrinio'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn seiliedig ar ganllawiau a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r nod oedd nodi effeithiau posibl y gyfundrefn diogelwch adeiladau newydd ar iechyd.

Bwriedir i'r Bill wella diogelwch i bobl mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth ac o gwmpas yr adeiladau hynny. Preswylwyr fydd yn teimlo'r effaith fwyaf. O gymharu â'r boblogaeth gyfan, mae preswylwyr adeiladau sydd o fewn y cwmpas yn fwy tebygol o fod yn aelwydydd un person, yn aelwydydd un person hŷn, yn anabl, o gefndir Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol, yn economaidd anweithgar neu mewn amddifadedd materol.

Mae marwolaeth neu anaf o ganlyniad i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau preswyl yn eithriadol o brin. Yn 2023-24, dim ond un marwolaeth a gofnodwyd o

ganlyniad i danau yng Nghymru, o gymharu â 98 o farwolaethau yn sgil gwrthdrawiadau traffig ffyrdd. Er eu bod yn brin, gall digwyddiadau o'r fath gael effaith ddinistriol.

Mae disgwyl i'r Bil gael effaith gadarnhaol ar amodau byw ac amgylcheddol, yn enwedig diogelwch tai. Bydd y system reoleiddio newydd yn cadarnhau pwy sy'n gyfrifol am asesu a rheoli risgiau i ddiogelwch mewn adeiladau sydd o fewn y cwmpas. Bydd hefyd yn annog deialog a gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu â phreswylwyr ar faterion sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau. Dylai hyn alluogi preswylwyr i fod yn fwy diogel a theimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi.

Rhagwelir y bydd y Bil yn cael effaith gadarnhaol gymedrol ar lesiant meddyliol. Mae'n ceisio rhoi sicrwydd i breswylwyr drwy leihau risgiau i'w diogelwch a'u cartrefi. Disgwylir i'r lleihad hwn yn y risg a'r canfyddiad o risg liniaru effeithiau negyddol ar iechyd meddwl.

Mae disgwyl i'r Bil gael effaith gadarnhaol gymedrol ar ddylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd. Drwy wneud adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yn fwy diogel, mae'r Bil yn ceisio lleihau'r tebygolrwydd y bydd yn rhaid i breswylwyr symud o ganlyniad i ddigwyddiadau'n ymwneud â diogelwch adeiladau. Mae hyn yn helpu i gynnal systemau cymorth cymdeithasol a chydlyniant cymunedol.

Yn gryno, bwriedir i'r Bil wneud adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yn fwy diogel, er budd pob preswylydd, yn enwedig y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau. Fodd bynnag, ar y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi y bydd y costau sy'n gysylltiedig â'r gyfundrefn newydd yn cael yr effaith fwyaf.

Ceir ymarfer sgrinio'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn Atodiad H.

## 2.6 Preifatrwydd

Bydd y Bil yn mandadu y gellir casglu, defnyddio a rhannu data personol i sicrhau diogelwch adeiladau a chydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddio.

Ni fydd Llywodraeth Cymru yn rheolydd ar gyfer data personol a brosesir mewn perthynas â'r Bil. Yn hytrach, awdurdodau diogelwch adeiladau, awdurdodau diogelwch tân, y Tribiwnlys Eiddo Preswyl, prif bersonau atebol a deiliaid dyletswydd o dan y Bil fydd y rheolyddion data ar gyfer prosesu data personol wrth gyflawni eu swyddogaethau a'u dyletswyddau.

Bydd angen prosesu data personol fel rhan o ddarpariaethau amrywiol o fewn y Bil, gan gynnwys cofrestru adeiladau, gweithredu systemau cofnodi digwyddiadau, sefydlu systemau cwyno a chydymffurfio â cheisiadau am wybodaeth. Caiff data personol fel enwau, manylion cyswllt a chyfeiriadau eu prosesu er mwyn sicrhau atebolrwydd a chymryd camau gorfodi.

Mae gweithgarwch prosesu data personol o dan y Bil wedi'i gyfiawnhau ac mae'n angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn cyflawni amcanion y Bil a chydymffurfio â chyfreithiau diogelu data ar yr un pryd.

Ceir Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn Atodiad D.

## ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT DIWYLLIANNOL A'R GYMRAEG?

### 3.1 Llesiant Diwylliannol

Nid oes cysylltiadau uniongyrchol â diwylliant a threftadaeth. Fodd bynnag, drwy wneud adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yn fwy diogel, gallai'r Bil leihau'r risg y bydd yn rhaid i breswylwyr symud o'u cymuned o ganlyniad i ddigwyddiad yn ymwneud â diogelwch adeiladau.  Byddai systemau cymorth cymdeithasol yn cael eu cynnal.

### 3.2 Y Gymraeg

Ni fydd y Bil yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg na gallu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg. Er nad oes modd mesur effaith y Bil ar y Gymraeg, bydd y darpariaethau yn effeithio ar y Gymraeg mewn gwahanol ffyrdd.

Mae siaradwyr Cymraeg yn llai cyffredin mewn aelwydydd sy'n byw mewn adeiladau sydd o fewn cwmpas y Bil o gymharu â phob aelwyd. Er enghraifft, dim ond 8% o aelwydydd mewn fflatiau, fflatiau deulawr a rhandai sydd â phob oedolyn yn siarad Cymraeg, o gymharu â 10% ym mhob annedd.

Mae tua 14% o'r boblogaeth yn byw mewn awdurdodau lleol sy'n Gymraeg eu hiaith yn bennaf. Mae adeiladau categori 1 yn llai cyffredin mewn ardaloedd sy'n Gymraeg eu hiaith yn bennaf (4%). Mae adeiladau categori 2 a chategori 3 wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal, gyda 9% a 12% mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn y drefn honno.

Mae cyrff yn y sector cyhoeddus y bydd y Bil yn effeithio arnynt yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn eu dyletswyddau. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol ac awdurdodau tân ac achub. Bydd y safonau hyn yn gymwys i'w dyletswyddau o dan y Bil yn yr un modd â dyletswyddau eraill.

Ceir Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn Atodiad E.

## ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT ECONOMAIDD?

Mae cefnogi twf economi Cymru a, thrwy hynny, fynd i'r afael â thlodi, wrth wraidd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

### 4.1 Busnesau, y cyhoedd ac unigolion

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar fusnesau a'r cyhoedd?**

Drwy wella trefniadau rheoleiddio, bwriedir i'r Bil wella diogelwch i bobl (ymwelwyr yn ogystal â phreswylwyr) mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth ac o gwmpas yr adeiladau hynny. Ar breswylwyr sy'n byw mewn adeiladau sydd o fewn cwmpas y gyfundrefn newydd arfaethedig y bydd yr effaith fwyaf. Bwriedir i'r diwygiadau wella diogelwch i bob preswylydd. Y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau fydd yn cael y budd mwyaf. Fodd bynnag, bydd costau i breswylwyr a'r rhai sydd yn y sefyllfa waethaf i dalu fydd yn teimlo effaith fwyaf y costau hynny. Ceir rhagor o wybodaeth am gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Fel y nodir uchod, bydd y Bil yn gosod dyletswyddau ar bersonau atebol i asesu a rheoli diogelwch adeiladau preswyl amlfeddiannaeth ac ymgysylltu â phreswylwyr. O ganlyniad i fodelau perchnogaeth cymhleth adeiladau, gall ystod eang o unigolion neu endidau fod yn berson atebol gan gynnwys:

- Landlord cymdeithasol cofrestredig
- Awdurdod lleol
- Cydweithrediaeth dai gwbl gydfeddiannol, a reolir gan denantiaid
- Rhydd-ddeiliad
- Prif Brydlesai
- Prydlesai Canol/Uwch Brydlesai
- Landlord
- Cwmni Rheoli Eiddo Preswyl neu Gwmni Hawl i Reoli
- Cymdeithas cyfunddaliad
- Lesddeiliaid â rhyddfraint

Bydd costau ynghlwm wrth y dyletswyddau newydd y bydd y Bil yn eu gosod ar bersonau atebol. Ceir rhagor o wybodaeth am gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## 4.2 Y sector cyhoeddus gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar y sector cyhoeddus?**

Bydd y Bil yn gwneud newidiadau a fydd yn effeithio ar awdurdodau lleol ac awdurdodau tân ac achub.

Bydd awdurdodau lleol yn ymgymryd â rôl newydd yr awdurdodau diogelwch adeiladau, fel y nodir uchod. Bydd hyn yn arwain at oblygiadau ariannol a goblygiadau o ran y gweithlu i awdurdodau lleol. Caiff yr effaith ariannol ar awdurdodau lleol ei hamlinellu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil.

Gwnaethom gomisiynu Adolygiad o'r gweithlu diogelwch adeiladau yng Nghymru i wella dealltwriaeth o'r effaith ar weithlu awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddiogelwch adeiladau preswyl sydd o fewn cwmpas y Bil. Nododd yr ymchwil dair prif her mewn perthynas â sicrhau bod y gweithlu diogelwch adeiladau yn barod i gyflawni ei gyfrifoldebau cyfredol.

1. Roedd aelodau'r gweithlu diogelwch adeiladau yng Nghymru yn fwy tebygol na'r boblogaeth gyffredinol o oedran gweithio yng Nghymru o fod yn ddynion dros 35 oed.
2. Nid oedd gan dimau awdurdodau lleol sy'n gweithio ar ddiogelwch adeiladau preswyl yn ystod y cam meddiannu y capasiti i fodloni'r galw. Mae gan rai awdurdodau lleol dimau mwy yn gweithio ar ddiogelwch adeiladau ac mae gwahaniaethau o ran maint y galw a'r math o alw.
3. Roedd awdurdodau lleol ac aelodau unigol o'r gweithlu yn llai tebygol o deimlo'n hyderus i gynnal archwiliadau a chamau gorfodi mewn perthynas ag adeiladau dros 11 metr o uchder o gymharu ag adeiladau llai. Mae hyn yn awgrymu bod bwlch posibl yn y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen er mwyn helpu i sicrhau diogelwch adeiladau uchel yng Nghymru.

Mae'r heriau hyn yn debygol o dyfu wrth i ddyletswyddau ychwanegol gael eu gosod ar awdurdodau lleol o ganlyniad i'r Bil.

Rydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried y goblygiadau o ran adnoddau a chapasiti i awdurdodau lleol. Mae heriau'n cynnwys uwchsgilio staff, recriwtio a chadw staff a chyfyngiadau o ran adnoddau. Bydd y grŵp yn cyfarfod am gyfnod o 12 mis o fis Ebrill 2025. Mae'r aelodau yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cynrychiolwyr awdurdodau lleol, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru a Rhentu Doeth Cymru. Mae'r pwyslais ar leihau rhwystrau i recriwtio/cadw staff a chau'r bwlch sgiliau.

Rydym hefyd yn datblygu model gweithredu ar gyfer awdurdodau lleol fel Awdurdodau Diogelwch Adeiladau. Mae hyn yn cynnwys ystyried capasiti o ran adnoddau, rhannu gweithlu rhwng awdurdodau lleol, rhannu data, y gyfundrefn ffioedd a chysylltiadau rhwng

awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau diogelwch adeiladau o dan y gyfundrefn newydd.

Caiff y gyfundrefn diogelwch tân uwch ar gyfer adeiladau preswyl amlfeddiannaeth, sydd ar wahân i Orchymyn Diogelwch Tân 2005, ei gorfodi gan yr awdurdodau tân ac achub. Bydd eu pwerau a'u cyfrifoldebau'n debyg iawn i'r rhai a nodir yng Ngorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, felly rhagwelir mai ychydig iawn o gapasiti ychwanegol, os o gwbl, y bydd ei angen ar awdurdodau tân ac achub.

## 4.3 Y Trydydd Sector

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar sefydliadau yn y trydydd sector a'r hyn y maent yn ei wneud?**

Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw effaith sylweddol ar y trydydd sector.

## 4.4 Yr Effaith ar Gyfiawnder

Rydym wedi ystyried effeithiau'r Bil ar y system gyfiawnder. Gwnaeth Llywodraeth Cymru gwblhau a chyflwyno Ffurflen Nodi Effaith ar y System Gyfiawnder i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a nododd effaith bosibl fach ar y system gyfiawnder. Ymgynghorwyd ag Adran yr Arglwyddes Brif Ustus hefyd ynghylch yr effaith y rhagwelir y bydd y Bil yn ei chael ar y system gyfiawnder.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer sefydlu awdurdodau diogelwch adeiladau, a fydd yn meddu ar swyddogaethau rheoleiddio, cydymffurfio a chynghori wrth oruchwylio'r gyfundrefn diogelwch adeiladau newydd. Bydd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfundrefn diogelwch adeiladau newydd ar gyfer adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yng Nghymru.

Bydd y Bil yn gosod dyletswyddau ychwanegol ar awdurdodau lleol (fel awdurdodau diogelwch adeiladau), awdurdodau tân ac achub (fel awdurdodau diogelwch tân), landlordiaid, tenantiaid, perchnogion, lesddeiliaid a rhydd-ddeiliaid. Bydd hefyd yn gosod dyletswyddau ar breswylwyr a pherchnogion unedau mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth sydd o fewn y cwmpas, i beidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n peri risg sylweddol y bydd risg i ddiogelwch yr adeilad yn codi.

Gall yr awdurdodau diogelwch adeiladau a'r awdurdodau diogelwch tân wneud ceisiadau i'r tribiwnlys eiddo preswyl o dan amgylchiadau penodol a chymryd camau erlyn drwy'r llysoedd i fynd i'r afael ag achosion o dorri darpariaethau'r Bil. Bydd prif bersonau atebol hefyd yn gallu gwneud cais i'r llysoedd am orchmynion torri. Caiff cyfundrefn orfodi newydd ei chynnig er mwyn sicrhau ac annog cydymffurfiaeth â'r gyfundrefn diogelwch adeiladau newydd. Mae hyn yn cynnwys:

- Pwerau Gorfodi Sifil: gan gynnwys pŵer i gyflwyno hysbysiadau cydymffurfio, hysbysiadau gwahardd a hysbysiadau gweithredu ar frys ar gyfer achosion penodol o fynd yn groes i'r gyfundrefn. Bydd awdurdodau diogelwch adeiladau ac awdurdodau diogelwch tân yn gallu gofyn am wybodaeth a dogfennau gan brif bersonau atebol a phersonau atebol a chael mynediad i adeiladau a'u harchwilio. Gall awdurdodau diogelwch tân hefyd gyflwyno hysbysiadau gwahardd.

- Pwerau Gorfodi ar gyfer Rheoli Diogelwch Adeiladau: Bydd gan awdurdodau diogelwch adeiladau ac awdurdodau diogelwch tân y pŵer i gymryd camau gorfodi yn erbyn prif bersonau atebol a phersonau atebol a phreswylwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'u dyletswyddau, yn ogystal â phreswylwyr lle bo hynny'n briodol.

Gall personau atebol roi hysbysiadau rhybuddio i breswylwyr os ydynt o'r farn eu bod wedi torri un o'u dyletswyddau. Yna gall personau atebol wneud cais i'r tribiwnlys eiddo preswyl am orchymyn torri o dan amgylchiadau penodol. Gall personau atebol a deiliaid dyletswydd mewn perthynas â thai amlfeddiannaeth hefyd wneud cais i'r tribiwnlys eiddo preswyl am orchymyn mynediad o dan amgylchiadau penodol.

Mae'r effaith y rhagwelir y bydd y Bil yn ei chael ar y system gyfiawnder yn ansicr a chaiff ei hystyried ymhellach.

Disgwylir i'r mwyafrif llethol o brif bersonau atebol a phersonau atebol a phreswylwyr gydymffurfio'n llawn ac yn barod â gofynion y gyfundrefn newydd. Mae'r polisi yn rhoi pwyslais ar ddefn yddio pob llwybr nad yw'n cynnwys sancsiwn i sicrhau cydymffurfiaeth, fel codi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau, hyrwyddo newid diwylliannol, ac addysg, cyn troi at sancsiynau sifil neu erlyniadau troseddol. Y nod yn hyn o beth yw mynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio cyn iddynt effeithio ar y system gyfiawnder. Bydd adeiladau o dan 18 metr o uchder, sef mwyafrif yr adeiladau sydd o fewn cwmpas y Bil, yn ddarostyngedig i lai o ddyletswyddau.

Mae data ar weithgarwch gorfodi o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn dangos bod camau gorfodi yng Nghymru yn gymharol isel[1]. Er enghraifft, yn y tair blynedd rhwng 2020 a 2023, cafwyd cyfanswm o 116 o hysbysiadau gorfodi, 17 o hysbysiadau gwahardd ac un erlyniad.

Drwy gyflwyno troseddau penodol, fel defnyddio aseswyr risgiau tân sydd heb gymhwyso, y bwriad yw y byddant yn gweithredu fel arf ataliol yn hytrach nag arwain at fwy o erlyniadau.

Wrth asesu effaith bosibl Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 yn Lloegr ar gyfer adeiladau 18 metr neu fwy, daeth swyddogion Llywodraeth y DU i'r casgliad y byddai'r effaith ar y system gyfiawnder yn fach iawn. Mae adeiladau sy'n 18m o uchder o leiaf yn llawer llai cyffredin yng Nghymru nag yn Lloegr. Fodd bynnag, gan y bydd y gyfundrefn yng Nghymru yn gymwys i ystod ehangach o adeiladau, mae'n bosibl y bydd hyn yn golygu y caiff mwy o achosion eu hatgyfeirio, i ddechrau, at y tribiwnlys eiddo preswyl. Mae ein hamcangyfrifon o'r llwyth achosion a chost uned pob achos yn ansicr a byddwn yn ceisio gwella'r disgwyliad y bydd lefel uchel o gydymffurfiaeth. Dylai'r defnydd o lwybrau cefnogol tuag at gydymffurfiaeth helpu i liniaru'r effaith.

[1] Stats Cymru Gweithgarwch archwilio yn ôl canlyniad archwilio a blwyddyn ariannol

## ADRAN 5. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT AMGYLCHEDDOL?

### 5.1 Adnoddau Naturiol

Nid oes cysylltiad uniongyrchol rhwng y Bil a'r Blaenoriaethau Cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol.

### 5.2 Bioamrywiaeth

Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw effaith ar fioamrywiaeth. Ceir Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth yn Atodiad F.

### 5.3 Newid yn yr Hinsawdd

Ni ddisgwylir i Fil Diogelwch Adeiladau (Cymru) effeithio'n sylweddol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr. Gallai newidiadau ym mhatrymau'r tywydd, fel gwyntoedd cryfach, gynyddu'r risg o rai digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau. Mae'r posibilrwydd hwn yn cryfhau'r ddadl dros wneud gwelliannau i'r ffordd y caiff diogelwch adeiladau ei asesu a'i reoli. Rydym wedi penderfynu nad oes angen asesiad llawn o'r effaith ar newid yn yr hinsawdd.

### 5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol

Nid yw'r Bil yn debygol o gael effaith ar amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd, ynni, diwydiant, trafnidiaeth, rheoli gwastraff, rheoli dŵr, twristiaeth, cynllunio gwlad a thref neu ddefnydd tir. Felly, nid oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru).

### 5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Caiff Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ei gynnal ar gyfer cynlluniau neu brosiectau sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd o fewn ystyr Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd) a Chyfarwyddeb 2009/147/EC (y Gyfarwyddeb Adar). Yn y cyd-destun hwn mae'r term ‘cynllun neu brosiect’ yn cynnwys strategaethau cynllunio, cynlluniau datblygu, cynigion datblygu neu unrhyw beth arall a allai effeithio ar integredd safle Ewropeaidd.

Nid yw'r cynigion a nodir yn y Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) yn cyd-fynd â'r diffiniad hwn ac felly nid oes angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

### 5.6 Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Mae angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer cydsyniad datblygu mewn perthynas â phrosiectau cyhoeddus a phreifat a nodir yng Nghyfarwyddeb 2011/92/EU (Cyfarwyddeb Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol) sy'n debygol o effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd.

Nid yw'r cynigion a nodir yn y Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) yn gydsyniad datblygu nac yn brosiect fel y nodir yn y Gyfarwyddeb ac, felly, nid oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

## ADRAN 6. Y DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL BETH FYDD YR EFFAITH AR ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL?

Bydd costau i breswylwyr ynghlwm wrth y gyfundrefn diogelwch adeiladau newydd a gyflwynir gan y Bil. Mae'r rhain yn debygol o gael mwy o effaith ar y rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi. Ceir Asesiad o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn Atodiad G.

## ADRAN 7. COFNOD O'R ASESIADAU EFFAITH LLAWN SY'N OFYNNOL

| **Asesiad Effaith** | |
|---|---|
| Hawliau plant | Atodiad A: Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant |
| Cydraddoldeb | Atodiad B: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb |
| Prawfesur Gwledig | Atodiad C: Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig |
| Preifatrwydd | Atodiad D: Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data |
| Y Gymraeg | Atodiad E: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg |
| Bioamrywiaeth | Atodiad F: Asesiad o’r Effaith ar Fioamrywiaeth |
| Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol | Atodiad G: Asesiad o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol |
| Iechyd | Atodiad H: Adnodd Sgrinio'r Effaith ar Iechyd |
| Cyfiawnder | Atodiad I: Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder |
| Economaidd / Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhan o'r Memorandwm Esboniadol |
| Newid yn yr Hinsawdd | Dd/G |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol | Dd/G |
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Dd/G |
| Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | Dd/G |

## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi helpu i'w ddatblygu?

Mae trafodaethau ar yr angen i ddiwygio'r Gyfundrefn Diogelwch Adeiladau wedi bod yn gyhoeddus ers trychineb Tŵr Grenfell yn 2017. Mae materion ynghylch diogelwch adeiladau wedi cael eu codi'n aml yn y Senedd a gyda Gweinidogion Cymru drwy ohebiaeth, cyfarfodydd rheolaidd a thrafodaethau ad-hoc gyda rhanddeiliaid a'r rhai y mae materion diogelwch adeiladau yn eu cartrefi yn effeithio arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub, cymdeithasau tai, datblygwyr, perchnogion adeiladau, asiantau rheoli, adrannau eraill o'r Llywodraeth, y diwydiant cyllid, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, grwpiau preswylwyr ac eraill. Rydym wedi gweithio gyda lesddeiliaid, tenantiaid, grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig penodol i ddeall effaith ein cynigion. Rydym hefyd wedi comisiynu ymchwil, gan gynnwys:

- ymchwil heb ei chyhoeddi â lesddeiliaid ethnig leiafrifol a lesddeiliaid anabl;
- ymchwil ymhlith preswylwyr o bob math ac o bob grŵp deiliadaeth, sy'n byw mewn adeiladau y diffiniwyd eu bod o fewn cwmpas y gyfundrefn diogelwch adeiladau newydd[2];
- adolygiad o dystiolaeth ar ddylanwadau dynol mewn tanau cartref, ac mewn adeiladau amlfeddiannaeth yn benodol[3].

Yn ei adroddiad Map tuag at Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru, nododd Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau Llywodraeth Cymru baramedrau ymateb Cymru i'r materion a godwyd gan adroddiad Hackitt. Ymgynghorodd Gweinidogion Cymru ar amcanion polisi a nodir yn y Papur Gwyn Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Drwy wella trefniadau rheoleiddio, bwriedir i'r Bil wella diogelwch i bobl (ymwelwyr a phreswylwyr) mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth ac o gwmpas yr adeiladau hynny. Ar breswylwyr sy'n byw mewn adeiladau sydd o fewn cwmpas y gyfundrefn newydd y bydd yr effaith fwyaf. Bwriedir i'r Bil wneud pob preswylydd yn fwy diogel a theimlo'n fwy diogel yn ei gartref. Bwriedir i'r diwygiadau wella diogelwch i bob preswylydd ac, felly, breswylwyr ag unrhyw nodweddion gwarchodedig. Y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau fydd yn cael y budd mwyaf, gan gynnwys pobl hŷn, rhai pobl anabl ac aelwydydd un rhiant. Mae preswylwyr a lesddeiliaid nad ydynt yn

[2] Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr

[3] Dylanwadau ar Ymddygiadau Diogelwch Tân Preswylwyr: Adolygiad o Dystiolaeth

breswylwyr, gan gynnwys pobl ag amrywiaeth o nodweddion gwarchodedig, wedi bod yn gefnogol i'n cynigion ar y cyfan.

Bydd dyletswyddau hefyd ar breswylwyr a pherchnogion unedau preswyl i helpu i gynnal diogelwch adeiladau. Bydd canllawiau'n bwysig er mwyn helpu preswylwyr a pherchnogion unedau preswyl i ddeall eu cyfrifoldebau o dan y gyfundrefn newydd.

Bydd costau i breswylwyr a'r rhai sydd yn y sefyllfa waethaf i dalu fydd yn teimlo effaith fwyaf y costau hynny. Ceir rhagor o wybodaeth am gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Bydd effaith hefyd ar ddeiliaid dyletswydd am y bydd dyletswyddau'n cael eu gosod arnynt i asesu a rheoli diogelwch adeiladau ac ymgysylltu â phreswylwyr. Nid ydym yn disgwyl i'r dyletswyddau hynny gael effeithiau gwahaniaethol sylweddol ar bobl â nodweddion penodol.

Bydd costau i ddeiliaid dyletswydd er mwyn cydymffurfio â'r dyletswyddau y mae'r Bil yn eu gosod arnynt ond mewn rhai achosion, gallant drosglwyddo costau rhesymol i lesddeiliaid drwy daliadau gwasanaeth.

Bydd effeithiau hefyd ar gyrff yn y sector cyhoeddus. Bydd awdurdodau lleol yn ymgymryd â rôl yr awdurdodau diogelwch adeiladau ac awdurdodau tân ac achub fydd yr awdurdod gorfodi o hyd ar gyfer materion yn ymwneud â diogelwch tân. Ceir rhagor o wybodaeth am gostau i'r ddau fath o awdurdod yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i'w helpu i gynllunio'r broses o roi'r gyfundrefn newydd ar waith a'i gweithredu, gan gynnwys drwy ddatblygu gweithlu sydd â'r sgiliau priodol i gyflawni'r dyletswyddau gofynnol.

Ni ddisgwylir i effeithiau ar gymunedau gwledig, y Gymraeg a'r amgylchedd fod yn sylweddol nac yn niweidiol.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae ein cynigion yn cyd-fynd â'r saith nod llesiant fel a ganlyn:

- Cymru Ffyniannus – mae ein cynigion yn nodi y bydd angen uwchsgilio'r gweithlu, a fydd yn cael effaith gadarnhaol hirdymor ar yr unigolion hynny a'r economi.

- Cymru Iachach – rydym yn rhagweld gwelliannau i ddiogelwch adeiladau a llesiant meddyliol preswylwyr am y byddant yn teimlo'n fwy diogel.
- Cymru Fwy Cyfartal – bydd pob preswylydd yn cael budd o'r lefel uwch o atebolrwydd am ddiogelwch tân yn ei gartref.
- Cymru o Gymunedau Cydlynus – bydd adeiladau mwy diogel yn cynyddu hyfywedd hirdymor cymunedau.
- Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu – ni fydd y Bil yn cael effaith uniongyrchol ar y Gymraeg.
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang – bydd y diwygiadau i ddiogelwch adeiladau yn helpu i hyrwyddo arferion gorau ym maes diogelwch adeiladau preswyl.

**8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan ddaw i ben?**

Bydd gwerthusiad o Ddeddf Diogelwch Adeiladau (Cymru) yn dechrau tua tair blynedd ar ôl i'r gyfundrefn newydd ddechrau dod i rym, a fydd yn digwydd tua phedair blynedd ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Bydd hyn yn rhoi amser:

- i gofrestru pob adeilad categori 1,
- i brif bersonau atebol ar gyfer adeiladau categori 1 wneud cais am dystysgrif adeilad a chael y dystysgrif honno,
- i ddatblygu a gweithredu strategaethau ymgysylltu â phreswylwyr ar gyfer adeiladau categori 1,
- i ddechrau cyflwyno'r gyfundrefn diogelwch adeiladau i adeiladau categori 2 a 3 a thai amlfeddiannaeth, os nad ei gorffen.

Caiff y dull gwerthuso ei gadarnhau ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Dylai'r gwerthusiad cychwynnol ystyried y canlynol:

- y broses o roi Deddf Diogelwch Adeiladau (Cymru) ar waith, gan gynnwys safbwyntiau rhanddeiliaid perthnasol,
- y cynnydd sydd wedi cael ei wneud i roi'r gyfundrefn diogelwch adeiladau ar waith,
- effeithiau cychwynnol y ddeddfwriaeth ar ddiogelwch adeiladau, gan gynnwys safbwyntiau rhanddeiliaid perthnasol.

Caiff dull gwerthuso fesul cam ei ystyried i ddeall effeithiau tymor hwy y ddeddfwriaeth ar ddiogelwch adeiladau, gan gynnwys asesiad o'r costau a'r manteision.

Cynhelir asesiadau effaith pellach maes o law fel y bo'n briodol pan gaiff is-ddeddfwriaeth ei gwneud o dan bwerau'r Bil. Cynhelir ymgynghoriad mewn perthynas ag is-

ddeddfwriaeth a bydd yr ymgynghoriad hwn yn gymesur ac yn briodol i natur y rheoliadau sy'n cael eu cynnig. Ymgysylltir â rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig lle bo hynny'n briodol, tra bod polisi'n cael ei ddatblygu. Bydd yn haws i'r rhanddeiliaid hynny ragweld yr effeithiau ar y cam hwnnw pan fydd ystyriaethau polisi penodol yn cael eu drafftio.

## ADRAN 9. DATGANIAD

**Datganiad**

Rwy'n fodlon bod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi'i hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch-Swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr: Tania Nicholson

Adran: Tai ac Adfywio

Dyddiad:  16/04/2025